



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: **Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol** (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Methodoleg	4
3	Canfyddiadau	5
4	Tueddiadau	10
5	Casgliadau ac argymhellion	14
	Atodiadau	16


1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad oedd yn rhan o'r gwaith arolygu er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.
- 1.8 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd 13 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 oedd yn cynnwys 12 awdurdod lleol a 1 parc cenedlaethol.
- 2.2 Arolygwyd y sefydliadau yn ystod Gorffennaf ac Awst 2025.
- 2.3 Mae Rheoliadau Rhif 1, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sector hwn, yn cynnwys dwy safon, sef safon 58 a safon 59 sy'n cyfeirio at ddefnydd sefydliadau o'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.4 Mae Safon 58 yn nodi 'Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.
- 2.5 Mae Safon 59 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol - 'Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)'.
- 2.6 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 58.
- 2.7 Gwiriwyd platfformau Facebook a X (Twitter gynt) gan ganolbwyntio ar is-gyfrifon yn hytrach na phrif gyfrifon y sefydliadau. Roedd hyn oherwydd ein bod wedi gwirio prif gyfrifon Facebook ac X yn flynyddol ers 2018 a'r ffaith ein bod yn derbyn nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion yn ymwneud â is-gyfrifon ar y platfformau hyn. Ar gyfer yr awdurdodau lleol, gwiriwyd is-gyfrifon ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd a hamdden (lle bo cyfrifon yn bodoli). Roedd gan yr 13 sefydliad oedd yn rhan o'r arolwg is-gyfrifon ar Facebook. Dim ond wyth sefydliad oedd ag is-gyfrifon ar X er bod rhai enghreifftiau lle gwelwyd bod hen gyfrifon yn parhau ar y platfform ond heb eu defnyddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn achos y sefydliadau hynny oedd ag is gyfrifon, gwiriwyd pum neges o gyfrif gwasanaethau llyfrgelloedd a phump o gyfrif hamdden. Lle nad oedd cyfrifon ar gyfer y ddau wasanaeth gwahanol, gwiriwyd deg neges o'r un cyfrif.
- 2.8 Gwiriwyd hefyd cyfrifon ar Instagram a LinkedIn ar gyfer yr 13 sefydliad. Nid yw'r Comisiynydd wedi arolygu'r platfformau hyn yn y gorffennol. Roedd pob sefydliad yn defnyddio'r platfformau hyn. Gwiriwyd deg neges ddiweddar gan bob sefydliad ar eu prif gyfrifon ar gyfer y ddau blatfform hwn.
- 2.9 Gwiriwyd 470 o negeseuon neu bostiadau ar draws yr holl blatfformau gan wirio:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol?
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 2.10 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 83 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 83 yn nodi - 'Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.


3 Canfyddiadau




- 3.1 Mae'r arolygon wedi canfod bod sefydliadau wedi cydymffurfio yn well wrth gyhoeddi negeseuon ar y platfform X (79%). Y platfform lle roedd lefel cydymffurfiaeth ar ei isaf oedd Facebook (57%). Roedd 72% o'r negeseuon a wiriwyd ar Instagram yn cydymffurfio'n llawn â safon 58 tra bod 67% o'r negeseuon ar LinkedIn yn cydymffurfio.

Is-gyfrifon Facebook ac X

- 3.2 Dangosodd canlyniadau'r arolygon eleni bod 76% o'r negeseuon a wiriwyd ar is-gyfrifon Facebook ac X ar gael yn Gymraeg yn llawn. Roedd 15% o'r negeseuon a wiriwyd ar is-gyfrifon Facebook ac X yn uniaith Saesneg.
- 3.3 Gwelwyd bod 65% o'r negeseuon a wiriwyd ar is-gyfrifon Facebook ac X yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58.
- 3.4 Yn achos y platfform Facebook, roedd pedwar sefydliad oedd yn rhan o'r sampl eleni wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r 10 neges a wiriwyd. Roedd un sefydliad oedd wedi methu â chydymffurfio â safon 58 ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.




- 3.5 Dim ond un sefydliad oedd wedi llwyddo i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.
- 3.6 O'r 25 cyfrif a wiriwyd ar Facebook roedd pedwar cyfrif yn uniaith Saesneg. Roedd y ddau gyfrif a wiriwyd ar gyfer un corff yn uniaith Saesneg.
- 3.7 Ar X, roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio yn llawn ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd. Roedd un sefydliad oedd wedi methu â chydymffurfio â safon 58 ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd. Roedd dau sefydliad oedd wedi llwyddo i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd ar eu cyfrifon ar X.




- 3.8 O'r 14 cyfrif a wiriwyd ar X, roedd un o'r cyfrifon yn uniaith Saesneg.
- 3.9 Yn gyffredinol roedd sefydliadau yn perfformio yn well ar y platfform X gyda 79% o'r negeseuon yn cydymffurfio'n llawn, tra mai dim ond 57% o'r negeseuon ar Facebook oedd yn cydymffurfio'n llawn. Nodwyd hefyd bod 34% o'r negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar X a 57% ar Facebook.
- 3.10 Roedd canfyddiadau arolygon llynedd (2024-2025) yn dangos bod lefel cydymffurfiaeth â safon 58 yn uchel ymysg sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1, gyda 93% o'r negeseuon a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn. Tra bo cydymffurfiaeth â'r gofynion yn uchel yn achos prif gyfrifon Facebook ac X y llynedd, mae canlyniadau'r arolygon ar yr is-gyfrifon yn dangos sefyllfa wahanol ac yn amlygu'r angen i sefydliadau i gymryd camau bwriadus i sicrhau cydymffurfiaeth ar draws yr holl gyfrifon.
- 3.11 Nodwyd bod rhai o'r gwasanaethau dan sylw yn cael eu darparu gan drydydd parti ar ran y sefydliad. Yn yr achos hynny, roedd lefel cydymffurfiaeth yn dueddol o fod yn is. Mae hyn yn amlygu'r angen i sefydliadau sicrhau bod eu darparwyr trydydd parti yn llwyr ymwybodol ac yn gyfarwydd â gofynion y safonau a bod trefniadau cadarn mewn lle i wirio a sicrhau cydymffurfiaeth fel rhan o'r cytundeb gyda'r darparwr dan sylw.

Instagram



- 3.12 Yn achos y platfform Instagram, roedd 72% o'r negeseuon a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58 ac roedd 89% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg.
- 3.13 Roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.
- 3.14 Gwelwyd fodd bynnag, bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym 47% o'r negeseuon a wiriwyd.
- 3.15 Roedd dau sefydliad wedi llwyddo i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd ar eu cyfrifon.
- 3.16 O'r 13 cyfrif a wiriwyd ar Instagram, roedd pob un ar gael yn Gymraeg.


LinkedIn



- 3.17 Roedd 67% o'r negeseuon a wiriwyd ar y platfform LinkedIn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58 gyda 78.5% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg.
- 3.18 Roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio yn llawn ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd. Yn groes i hynny, roedd un sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon 58 ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.

- 3.19 Roedd 43% o'r negeseuon a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gyda dim ond un sefydliad yn llwyddo i sicrhau nad oedd wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.
- 3.20 O'r 13 cyfrif a wiriwyd, roedd un sefydliad yn gweithredu cyfrif uniaith Saesneg, tra bod y 12 cyfrif arall ar gael yn Gymraeg – naill ai drwy gyfrif Cymraeg penodol neu gyfrifon dwyieithog.

Hunaniaeth gorfforaethol (safon 83)




- 3.21 O safbwynt gofynion safon 83 a'r ddyletswydd i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 68% o'r cyfrifon a wiriwyd ar Facebook yn methu â chydymffurfio tra bod 50% o'r cyfrifon ar X hefyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.22 Roedd y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol yn 38% o'r cyfrifon a wiriwyd ar Instagram.
- 3.23 Yn achos cyfrifon ar y platfform LinkedIn, gwelwyd bod 69% ohonynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno eu hunaniaeth gorfforaethol.
- 3.24 Y prif reswm dros y sefyllfa hon oedd bod sefydliadau yn tueddu i ddefnyddio enwau cyfrif uniaith Saesneg, er bod y negeseuon a gyhoeddwyd ar y cyfrifon hynny yn aml yn dwyieithog. Gwelwyd enghreifftiau hefyd lle bo'r wybodaeth gyffredinol o fewn y proffil yn uniaith Saesneg neu bod llai o wybodaeth ar y proffil cyfatebol Cymraeg pan oedd gan y sefydliad gyfrifon ar wahân. Yn achos LinkedIn ac Instagram, gwelwyd hefyd bod y proffil corfforaethol yn aml yn uniaith Saesneg ar gyfrifon dwyieithog neu fod llai o wybodaeth ar broffil y cyfrif Cymraeg o'i gymharu â'r cyfrif Saesneg cyfatebol.

Codi ymwybyddiaeth o gyfrifon Cymraeg

3.25 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn datgan –

“Os yw corff yn penderfynu gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid iddo godi ymwybyddiaeth o'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol yn unol â safonau 81 ac 82. Gall hyn gynnwys corff yn darparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol”.

3.26 O'r 65 cyfrif a wiriwyd fel rhan o'r arolwg, roedd 16 ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol (gyda chyfrif cyfatebol Saesneg ar wahân). O'r 16 cyfrif hynny, dim ond wyth cyfrif Saesneg oedd â dolen yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.



3.27 O'r 25 cyfrif a wiriwyd ar Facebook, roedd pedwar ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol. O'r pedwar cyfrif hwnnw, dim ond un oedd yn cynnwys dolen o'r cyfrif cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.

3.28 O'r 14 cyfrif a wiriwyd ar X, roedd tri ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol. O'r tri cyfrif hwnnw, roedd dau yn cynnwys dolen o'r cyfrif cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.


3.29 O'r 13 cyfrif a wiriwyd ar Instagram, roedd chwech ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol. O'r chwe chyfrif hynny, roedd pump yn cynnwys dolen o'r cyfrif cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.


3.30 Roedd tri sefydliad yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân ar LinkedIn. Nid oedd yr un o'r cyfrifon cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg yn eu tudalen broffil.

4 Tueddiadau


Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.1 Dengys yr arolwg bod 17% o'r negeseuon yn cydymffurfio'n rhannol â'r safon tra bod 32% wedi methu â chydymffurfio. Roedd y methiant hwn yn deillio o amryw o ffactorau, ond y rheswm amlycaf oedd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.2 Roedd nifer o sefydliadau yn defnyddio hashnodau fel rhan o'u negeseuon. Gwelwyd rhai enghreifftiau lle nad oedd hashnodau'n rhan o'r testun Cymraeg, a byddai'r hashnodau yn Saesneg yn unig. Yn ogystal, gwelwyd enghreifftiau lle bo dolenni i gyfrifon neu wefannau allanol wedi'u cynnwys o fewn negeseuon Saesneg ond heb eu cynnwys yn y neges gyfatebol Gymraeg. Wrth gynnwys dolenni allanol, dylid sicrhau bod dolenni yn arwain at gynnwys Cymraeg, lle bo hynny ar gael.
- 4.3 Nodwyd hefyd nad oedd y Gymraeg yr un mor hygyrch na gweladwy â'r Saesneg mewn nifer o negeseuon dwyieithog. Gwelwyd enghreifftiau mewn negeseuon dwyieithog lle bo'r testun Cymraeg wedi ei osod o dan y testun Saesneg, gan olygu ar rai platfformau fod angen sgrolio neu glicio ar fotwm i weld y testun Cymraeg yn llawn, fel y dangosir yn yr enghreifftiau isod:





- 4.4 Lle bo sefydliadau â chyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, gwelwyd sawl enghraifft lle nad oedd y cyfrif Cymraeg â'r un cynnwys a'r Saesneg, gyda llawer mwy o negeseuon a chynnwys ar y cyfrifon Saesneg o gymharu â'r cyfrif Cymraeg. Canlyniad hyn yw bod y rhai hynny sydd yn dewis dilyn y cyfrif Cymraeg yn gweld llai o negeseuon a hysbysiadau â dilynwyr y cyfrif Saesneg.
- 4.5 Yn gadarnhaol, gwelwyd hefyd enghreifftiau lle bo sefydliadau wedi llwyddo i sicrhau bod negeseuon Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal drwy bostio negeseuon ar wahân ar un cyfrif dwyieithog. Un o'r sefydliadau hyn oedd Trafnidiaeth Cymru (sydd yn ddarostyngedig i safonau sydd wedi eu gosod ar Weinidogion Cymru). Yn yr enghraifft isod gwelir bod Trafnidiaeth Cymru yn llunio testunau cyfatebol mewn negeseuon ar wahân ac yn eu cyhoeddi yr un pryd:



Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.6 Wrth gyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 58% o'r cyfrifon a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd logo, enw'r cyfrif, neu'r "handle" yn uniaith Saesneg, a lle'r oedd y wybodaeth yn y proffil

yn uniaith Saesneg neu'n cynnwys llai o wybodaeth yn Gymraeg o'i gymharu â'r testun cyfatebol Saesneg.

- 4.7 Rydym yn cydnabod bod cyfyngiadau ar hyd y testun y gellir ei gynnwys yn adran proffil y cyfrifon hyn. Mae hyn yn amlygu'r angen i ystyried y Gymraeg yn fwriadol wrth greu cyfrifon ac wrth lunio'r testun proffil, er mwyn sicrhau bod modd cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn Gymraeg. Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd sefydliadau wedi llwyddo i wneud hyn yn effeithiol:



Fideos a chlipiau sain

- 4.8 Mae safon 37 yn datgan –

“Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg”.

- 4.9 Roedd 78 o'r negeseuon a wiriwyd ar draws y 4 platfform yn cynnwys fideos neu glipiau sain yn rhan o'r neges.
- 4.10 Roedd 57 o'r fideos a chlipiau sain a wiriwyd ar gael yn Gymraeg, sydd gyfwerth â 73%.
- 4.11 O'r 57 neges oedd ar gael yn Gymraeg, roedd 25 (44%) yn cyflwyno'r Gymraeg drwy gyfrwng is-deitlau neu droslais.
- 4.12 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn datgan y gall y defnydd o isdeitlau a throsllais dros glipiau Saesneg arwain at y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.13 Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau efallai nad yw hynny'n rhesymol nac yn ymarferol – er enghraifft, lle ystyrir bod angen person penodol nad yw'n medru'r Gymraeg er mwyn cyfleu neges yn uniongyrchol. Serch hynny, disgwylir i sefydliadau wneud

ymdrechion rhesymol i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosib, ac i gyhoeddi fideos yn Gymraeg pan fo modd.

- 4.14 Er bod natur rhai fideos yn benodol ac arbenigol iawn eu cynnwys, gwelwyd ambell i enghraifft lle'r oedd sefydliad wedi llwyddo i gyhoeddi fideo yn Gymraeg yn llwyddiannus, gan gynnwys [fideo](#) gan Adran Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn rhybuddio am berygl tegau ffug.
- 4.15 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o sefydliadau yn cyhoeddi fideos heb ddeialog gyda thestun yn Gymraeg (neu'n ddwyieithog) yn rhan o'r fideos. Ystyrir bod hyn yn ddull ymarferol ac effeithiol o sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn hygyrch, yn enwedig mewn achosion lle gallai defnyddio siaradwyr Cymraeg fod yn anodd.

5 Casgliadau ac argymhellion

- 5.1 Roedd 68% o'r negeseuon a wiriwyd fel rhan o'r arolwg yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58. Mae hyn yn ostyngiad o 25% o ganfyddiadau'r arolwg yn 2024-2025, pan wiriwyd prif gyfrifon yn unig. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw'r trefniadau sydd mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth is-gyfrifon yn ddigonol. O ganlyniad, mae angen i sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio, gan sicrhau bod unrhyw drefniadau monitro a gwirio yn rhoi'r un lefel o graffu i'r is-gyfrifon ag i'r prif gyfrifon.
- 5.2 Mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda 46% o'r negeseuon wedi methu â sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r ddyletswydd hon. Nid yw sefydlu cyfrif Cymraeg penodol, nac ychwaith cyhoeddi neges yn Gymraeg, yn gwarantu cydymffurfiaeth. Mae angen ystyried ystod ehangach o ffactorau, gan gynnwys iaith unrhyw fideos neu glipiau sain, y defnydd o hashnodau, gwelededd a hygyrchedd, yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys Cymraeg o'r un safon a manylder â'r deunydd Saesneg. Yn gysylltiedig â hyn, dylid gwirio gofynion safonau sy'n ymwneud â deunyddiau cyhoeddusrwydd wrth gyhoeddi cynnwys ar gyfrifon cymdeithasol, yn ogystal â gofynion safon 58.
- 5.3 Wrth sefydlu a chynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rhaid ystyried gofynion safon 83 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol yn ogystal â'r safonau sy'n ymwneud â chyfrifon cymdeithasol. Dylid sicrhau nad yw'r logo, enw, handlenni na'r wybodaeth ar y proffil yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.4 Mae angen i sefydliadau gymryd camau i sicrhau bod unrhyw gynnwys neu gyfrifon cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n unol â gofynion safonau 81 ac 82. Dylid cynnwys dolenni i'r cyfrif Cymraeg o'u gwefan ac o'r cyfrif Saesneg cyfatebol. Gellir hefyd hyrwyddo'r cyfrifon Cymraeg drwy ymgyrchoedd penodol, gan gyfeirio dilynwyr y cyfrifon Saesneg at y rhai Cymraeg.
- 5.5 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1:

Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio i sicrhau bod holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar bob platfform yn cydymffurfio â gofynion yr holl safonau perthnasol. Dylid sicrhau bod pob aelod o staff sydd yn postio ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn gyfrifol am y cyfrifon a ddefnyddir yn llwyr ymwybodol o ofynion y safonau drwy ddarparu arweiniad a chanllaw ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol.

Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal awdit llawn o'r holl gyfrifon cymdeithasol y maent yn gyfrifol amdanynt i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad gan gynnwys gwirio logos, enwau, handlenni a phroffiliau.

Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Dylai sefydliadau sicrhau, wrth gyhoeddi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, bod y cynnwys yn Gymraeg yn gyflawn gan gynnwys y testun, lluniau, fideos a chlipiau sain. Dylid hefyd sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yr un mor hygyrch ac gweledol â'r cynnwys Saesneg.

Argymhelliad 4: Hyrwyddo cyfrifon Cymraeg

Dylai sefydliadau gymryd camau i hyrwyddo eu cyfrifon Cymraeg drwy gynnwys dolenni clir o'r cyfrifon cyfatebol Saesneg i'r cyfrifon Cymraeg.

Argymhelliad 5: Fideos

Dylai sefydliadau archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o fewn cynnwys y fideo, lle bo hynny'n ymarferol bosib.

Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Is-gyfrif adrannol Facebook	Is-gyfrif adrannol X	Instagram corfforaethol	LinkedIn corfforaethol	Cyfanswm a chanrannau
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	13	8	13	13	
Nifer y cyfrifon a wiriwyd	25	14	13	13	65
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	4 (16%)	3 (21%)	6 (46%)	3 (23%)	16 (25%)
Nifer a % y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	17 (68%)	10 (71%)	7 (54%)	9 (69%)	43 (66%)
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	4 (16%)	1 (7%)	0	1 (8%)	6 (9%)
Nifer a % y sefydliadau oedd yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol	8 (32%)	7 (50%)	8 (62%)	4 (31%)	27 (42%)
Nifer y negeseuon a wriwyd	130	80	130	130	470
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn gwbl Gymraeg	95 (73%)	64 (80%)	116 (89%)	102 (78.5%)	377 (80%)

Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	74 (57%)	63 (79%)	94 (72%)	87 (67%)	318 (68%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	27 (21%)	3 (4%)	24 (18.5%)	27 (21%)	81 (17%)
Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (<i>yn cynnwys yn llawn neu yn rhannol</i>)	70 (54%)	27 (34%)	61 (47%)	56 (43%)	214 (46%)

Atodiad 2: Fideos (arweiniad)

Ydi clip fideo sy'n cynnwys isdeitlau neu droslais Cymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mae hyn yn dibynnu ar natur a chynnwys y clip dan sylw. Nodir enghraifft o ddwy sefyllfa bosibl yma.

Clip fideo sy'n cynnwys troslais, lle mae geiriau yn cael eu hadrodd dros luniau

Mewn clip fel hwn, mae'r geiriau yn cael eu siarad gan berson tra mae lluniau o rhywbeth arall i'w gweld (hynny yw, nid yw'r person i'w weld). Os yw'r corff yn cynhyrchu clip fideo sy'n cynnwys troslais, a bod y clip fideo yn cael ei ddefnyddio fel fersiwn Gymraeg y clip fideo, gall y corff drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg trwy:

- defnyddio is-deitlau Cymraeg yn hytrach na throslais Cymraeg ar y clip fideo hwnnw; a / neu
- defnyddio troslais Saesneg yn hytrach na throslais Cymraeg ar y clip fideo hwnnw.

Clip fideo sy'n dangos person y gellir ei weld yn siarad

Mewn clip fel hwn, mae person yn cael ei weld yn siarad ac yn mynegi sylwadau/barn am eu profiadau personol.

Os yw'r corff yn cynhyrchu clip o'r fath sy'n dangos person yn siarad, a bod y clip fideo yn cael ei ddefnyddio fel fersiwn Gymraeg y clip fideo, os yw'r fideo yn cynnwys cyfraniad Saesneg gan siaradwr nad yw'n Gymraeg, efallai na fydd defnyddio is-deitlau Cymraeg yn trin Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg os:

- ni all unrhyw berson arall wneud cyfraniad cyfatebol i'r cyfraniad hwnnw yn Gymraeg;
- ni fyddai'n ymarferol cynnwys troslais Cymraeg ar gyfer y cyfraniad; a
- mae cyfraniadau a wneir yn Gymraeg fel arfer yn cael eu hisdeitlo yn Saesneg (yn hytrach na chael eu trosleisio yn Saesneg).

Atodiad 3: Rhestr sefydliadau'r arolwg

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr
- Cyngor a Dinas Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Gweinidogion Cymru
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog